

Does neb ond ef...

Wyddoch chi beth yw syched? Ro'n i'n meddwl yn mod i.

Does dim raid meddwl am y peth ryw lawer. Mae'r corff yn rhyfeddol am reoli lefel hylif angenrheidiol, drwy... wel, â' i ddim i fanylder.

Yn syml wrth i'r dydd fynd yn ei flaen bydd yr awydd yn codi ynom am baned neu lymed o ddŵr, ac fe'n diwellir. Rydym ond yn sylwi mor hanfodol yw'r reoli yma pan aiff rhywbeth o chwith drwy waeledd neu amgylchiad bywyd.

A dyma ddigwyddodd i mi ar daith ryfeddol i Mizoram rai blynyddoedd yn ôl. Cawsom ein tywys o gylch Aizawl lle bu'n nheulu yn genhadon, ac yfed yn ddofn o'r hanes, y bobl a'r golygfeydd. Roedd hi'n ddiwrnod braf heb fod yn boeth, a chymerais ofal i yfed drwy'r dydd.

Gyda'r nos cafwyd swper arbennig gyda ffrindiau a gwesteion anrhydeddus, gwledd a dweud y gwir. Ond methes i a bwyta mwy nag un gronyn o reis am fy mod yn teimlo mor chwil.

Ffasiwn gywilydd!



'Dewch i'r dyfroedd bob un y mae syched arno'

Torri Syched, Eseia 55:1-9 ac Ioan 7:37

Ffwrdd â mi i'r llofft, a chael potelaid o ddŵr i'w hyfed, deg i ddweud y gwir. Cyn hir roeddwn yn teimlo'n llawer gwell, doedd dim mwy o'i le na mod heb yfed digon. Wyddwn i ddim bod syched arnaf.

Dyma'r argraff rwy'n ei gael wrth ddarllen yr adnodau o Eseia 55, pobl na wyddent fod syched arnynt, yn ceisio diwallu ei hangen drwy bopeth heblaw am ddioid. Maent yn gwario ar "yr hyn nad yw'n fara, a llafurio am yr hyn nad yw'n digoni" (ad. 2). Daw'r trosiad i danlinellu mai syched ysbrydol ydyw'r gwir syched sydd arnynt: "Gwrandewch arnaf, dewch ataf; clywch, a byddwch fyw."

Mae'r Arglwydd yn eu hatgoffa, drwy Eseia, o'i gyfamod ac yn eu cymell, neu efallai eu rhybuddio, i ddychwelyd gan estyn atynt feddyginiaeth ei drugaredd a'i faddeuant. Ond rhaid wrth wyleidd-dra y sychedig, a chydabod eu hangen ohono, gadael eu ffyrdd drygionus a chydabod ei fod Ef yn uwch na ni.

Wyddwn ni ddim fy mod yn sychedig;

(parhad ar y dudalen nesaf)

Yr Amgylchedd – Ymateb Agored

Annwyl Gyd aelodau,

Fel pob eglwys arall yn y Cyfundeb, rydym ni yn Y Crwys, Caerdydd wedi derbyn copi o ddogfen ddrafft Polisi Amgylcheddol y Cyfundeb. Roeddwn yn falch o'i gweld a chael cyfle i'w darllen, a diolch i'r rhai a fu'n ei llunio. Gwahoddir ni i anfon unrhyw fewnbwn at Nan Powell-Davies neu i'r swyddfa ganolog. Wrth anfon llythyr agored fel hyn nid fy mwriad yw diystyru'r naill na'r llall, na bod yn anghwrtais; yn hytrach, rwy'n anfon y sylwadau isod yn y gobaith y byddant yn hybu trafodaeth eang ar dudalennau'r *Goleuad*, ac o fewn yr eglwysi, a hynny ar fater mor dyngedfennol.

Fel y gellid digwyl mewn dogfen bolisi, mae'n gryf ar egwyddorion cyffredinol, ac weithiau'n ymylu ar fod yn ystrydebol ac ailadroddlyd. Does gen i ddim problem â hynny, gan mai datganiad o bolisi ydyw. Yr hyn sy'n fy mlino yw, i ble rydym yn mynd nesaf? Pa gamau ymarferol fydd yn cael eu cymryd er mwyn deffro unigolion, teuluoedd ac eglwysi lleol i'r argyfwng, a'u cynorthwyo i "wneud y pethau bychain" sydd o fewn eu cyrraedd?

Hyderaf y bydd y polisi'n arwain at strategaeth gyda nodau pendant a fframwaith amser briodol.



Beth am y Cyfundeb ei hun, wedyn? Yn ôl yn oes yr arth a'r blaidd, pan oeddwn i'n Llywydd y Gymanfa, bûm yn pwysu hyd at syrffed am gael cynnal cyfarfodydd/pwyllgorau mewn mannau oedd o fewn cyrraedd i drafnidiaeth gyhoeddus, ond cyndyn iawn oedd neb i wrando, ac ychydig o gymhelliad a fu i bobl rannu ceir. Bellach daeth *Skype*, a diolch am hynny, er nad yw pob pwyllgor yn hapus i'w ddefnyddio. Ond beth am y mnydd o bapur a gynhyrchir yn flynyddol gennym? Bu cwyno

(parhad ar y dudalen nesaf)

Pwy yw'r ymgeiswyr am y weinidogaeth efo EBC?

Na, does neb yn cynnig eu hunain i fod yn weinidogion heddiw, nac oes?

O leiaf dyna'r stori yr ydym yn adrodd wrth ein gilydd. Ond yn ffodus, nid yw'n stori wir. Yma cawn gyflwyniad i rai o'n hymgeiswyr. Cofiwch weddio drostynt.


Mae Mrs **Nerys Griffiths** o Gaernarfon, yn gweithio ar hyn o bryd i Henaduriaeth Arfon yng Nghapel Jerwsalem, Bethesda. Cyn mynd yn ymgeisydd am y weinidogaeth, bu'n gweithio i Gyngor Gwynedd fel swyddog prosiect efo bobl oedd yn chwilio am waith, ond yn ddiweddar cychwynnodd mewn rôl newydd fel gweithiwr Cristnogol efo pwyslais ar waith efo bobl hŷn. Yn briod ag Alwyn ac yn fam i ddwy ferch ifanc, mae Nerys yn dilyn cwrs hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth ar hyn o bryd.



Mae Mr **Emyr Williams** yn Gynorthwydd Gweinidogaethol yng nghylch Llandeilo a'r Arfordir, yn Henaduriaeth Myrddin ers pum mlynedd. Cyn hyn bu'n gweithio efo cwmni amaethyddol lleol, a hefyd yn dysgu TG i ffermwyr. Yn briod ag Eleri, mae eu dau fab bellach yn yr ysgol uwchradd. Bydd Emyr yn cwblhau ei hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth yn yr haf, yna gobeithia fynd i ofalaeth fel gweinidog.

Mae Mr **Ian Hayward** wedi ymddeol fel athro Ffiseg, ac wedi cymryd gofal gwirfoddol dros ei eglwys Saesneg lleol yn y Fenni, gyda chefnogaeth ei wraig Karen. Penderfynodd yn ddiweddar geisio ei ordeinio fel gweinidog i'w gynorthwyo ymhellach yn ei rôl yn yr eglwys a'r henaduriaeth.

Mae Mr **Moses Tumukunde Tutesigensi** a'i wraig Mari yn byw yng Nghaerdydd, lle mae Mari yn rheolwr ar Dîm Cymorth Cristnogol Cymru. Graddiodd Moses mewn biocemeg, yna cwblhaodd ei hyfforddiant diwinyddol ym mis Mehefin 2019. Bu'n gweithio yn Henaduriaeth Canolbarth Cymru a'r Gororau fel hwylusydd cenhadaeth, a rŵan mae'n gweithio efo Henaduriaeth y De Ddwyrain yn helpu lansio Partneriaeth Cenhadaeth Gorllewin Gwent.



Delyth Oswy Shaw

Does neb ond ef ... (parhad o dudalen 1)

roeddwn i'n siŵr i mi yfed digon; y gwir oedd nad oeddwn mewn cyflwr i wybod na meddwl yn glir. Rwy'n gweld yr un syched sydd yn Eseaia 55 o'm cwmpas heddiw, a neb yn ceisio'r dyfroedd bywiol sydd gan ein Gwaredwr, ond yn drachtio'n ddofn o bethau gwag y byd. Yfed dŵr pydew yn hytrach nac o ffynnon gloyw bywiol lesu.



Y wledd a'r croeso yn Mizoram

"Pwy bynnag sy'n sychedig, deued ataf fi ac yfed."

Ar ddydd olaf Gŵyl y Pebyll, roedd seremoni arbennig pryd y cludai offeiriad ddŵr o bwll Siloam (a lanwyd o ffynnon Gihon) drwy "Porth y Dŵr" i'r Deml. Canai'r côr a'r dyrfa'r Halel (Salmau 113-8, 135-6) wrth amgylchu'r Allor. Mewn gweithred o eiriolaeth am law tywalltai'r dŵr wrth droed yr allor, yn symbolaidd o afon y bywyd yn Eseciel 47. "Bydd yr afon hon yn llifo yno ac yn puro'r dyfroedd; bydd popeth yn byw lle llifa'r afon" (Eseciel 47:9).

Dyma pryd y cododd lesu ar ei draed gan gyhoeddi'n uchel mai ef yw cyflawniad yr addewidion hyn. Ef yn unig all ein diwallu, ynddo ef y mae afon y bywyd yn tarddu.

Fel y dywedodd Eseaia: "Gwrandewch

arnaf, dewch ataf; clywch, a byddwch fyw" (55:3), mae'r cysylltiad rhwng gwrandeio ac yfed yn glir. Mae Paul yn tanlinellu hyn i ni: "Felly, o'r hyn a glywir y daw ffydd, a daw'r clywed trwy air Crist" (Rhuf. 10:17). Mewn trosiad arall mae'r un gwirionedd hanfodol mewn dameg gan lesu, "GWRANDEWCH, aeth heuwr allan i hau" (Marc 4:3).

Y noson honno ym Mizoram, rhaid oedd i mi lyncu fy malchder a chyffesu fy mod yn sâl, nid peth rhwydd yn y cwmni hwnnw.

Faint ohonom sydd yn glaf o syched ysbrydol, ond yn rhy falch i gydnabod ein hangen o'r lesu?

"Does neb ond Ef, fy lesu hardd."

Na, neb ond Ef ...

*Parch Hywel Edwards,
Gofalaeth Ardal Thomas Charles*

Yr Amgylchedd – Ymateb Agored

(parhad o dudalen 1)

cyffredinol yn y Gymanfa eleni yn wyneb y bwndeli mawr o ddogfennau ac atodiadau a ddanfonwyd at y cynrychiolwyr. Rwy'n derbyn bod y papur hwn yn dod o ffynhonnell gynaliadwy, ond a oes angen ei gynhyrchu yn y lle cyntaf?

A beth am yr elfiant sydd yn ystafell pob un o'r enwadau Cymraeg wrth iddynt drafod eu polis au amgylcheddol? Gan nad yw cynlluniau ecwmenaidd y blynyddoedd diwethaf wedi dwyn ffrwyth fel y byddai llawer ohonom yn dymuno, rydym yn parhau i gynnal gormod o adeiladau gwastrafflyd, a'r rheiny o fewn tafliad carreg i'w gilydd.

Dyna godi digon o gwestiynau. Atebion, os gwelwch yn dda, i'r Gweithgor Amgylcheddol! Edrychwn ymlaen at dderbyn arweiniad ymarferol, radical yn wyneb argyfwng mawr ein canrif. Fel man cychwyn, byddai llyfryn a chyfres o bosteri lliwgar, bachog gyda phwyntiau ymarferol yn werthfawr (tebyg i'r hyn a gafwyd rai blynyddoedd yn ôl). Yn y cyfamser, "gwnawn y pethau bychain", bob un.

*Glyn Tudwal Jones,
Caerdydd*